



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL CAU FFORDD AR GYFER Y JIWBILŴ PLATINWM 2 – 5 MEHEFIN 2022

Cynnwys:

Nodiadau i gynorthwyo'ch cais

Ffurflen Gais

Nodiadau i gynorthwyo'ch cais:

Mae'r Cyngor am ei gwneud hi'n haws i bobl gynnal partïon stryd i ddathlu'r JiwbilŴ Platinwm. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ar sut i gynnal parti stryd bach yn eich cymuned/stryd leol.

Mae'n cynnwys ffurflen gais ac indemniad i'w llenwi a'i dychwelyd at platinumjubilee@merthyr.gov.uk, fel y gallwch chi ddechrau trefnu eich parti stryd.

Mae'r Cyngor am gefnogi partiïon stryd, ond mae angen ichi sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar frys.

Os hoffech chi gynnal parti stryd bach i ddathlu'r Jiwbilî Platinwm, defnyddiwch y ffurflen gais amgaeedig i hysbysu'r Cyngor o'r digwyddiad arfaethedig (y parti stryd) ac i wneud cais am unrhyw gau ffordd/ffyrdd sy'n ofynnol. Er mwyn cynnal parti stryd ar neu o fewn y briffordd, rhaid i chi ofyn am ganiatâd a chael cymeradwyaeth y Cyngor i sicrhau y gallwch chi gau'r stryd yn gyfreithlon ac yn ddiogel i draffig.

Rhaid i geisiadau ddod i law Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful erbyn: 17 Ebrill 2022 drwy platinumjubilee@merthyr.gov.uk

Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw eich ffordd yn addas i'w chau.

Ar bob adeg a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid cynnal mynediad i gerbydau'r Gwasanaethau Brys ac i breswylwyr/busnesau i'w heiddo ac oddi yno.

ARWYDDION/CONAU CAU Ffordd:

Fe'u darperir gan Gwmni Rheoli Traffig

Ffurflen Gais:

Enw

Cyfeiriad

.....

.....

.....

Sefydliad a Math o Ddigwyddiad

.....

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn yn ystod yr hwyr

Disgrifiad o'r rhan o'r ffordd yr hoffech ei chau:

Llwybr amgen

Dyddiad(au) _____

Amserau _____ NODER: gellir cau'r ffordd ddim ond rhwng
10:00am a 9:00pm ar y diwrnod.

YMGYNGHORIAD (y trigolion a effeithir yn uniongyrchol o fewn yr ardal a gaeir)

Mae'r Cyngor am sicrhau bod y mwyafrif o bobl yn hapus â'r digwyddiad sydd wedi'i gynllunio (y parti stryd). Fodd bynnag, ni fydd pawb yn gallu neu'n dymuno cymryd rhan yn y digwyddiad, felly mae'n ddoeth rhoi gwybod i bawb yn union faint o'r gloch y bydd y parti yn dechrau ac yn gorffen. SYLWCH - gellir cau'r ffordd ddim ond rhwng 10:00am a 9:00pm ar y diwrnod.

Y dull a awgrymir ar gyfer yr ymgynghoriad yw anfon llythyr at y trigolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol i'w hysbysu o fanylion llawn y digwyddiad (y parti stryd) fel bod pawb yn cael yr holl wybodaeth. Dangosir enghraifft o'r fath lythyr isod:

A ydych chi wedi ymgynghori â phawb a allai gael eu heffeithio? Ydw/Nac ydw

A oes unrhyw wrthwynebiad i gau'r ffordd? Oes /Nac oes

Llofnod

Dyddiad

ENGHRAIFFT O LYTHYR YMGYNGHORI

Eich Enw

Eich Cyfeiriad / Manylion Cyswllt

Annwyl gymydog,

Par: Parti Stryd y Jiwbilî Platinwm yn ein stryd ar XX Mehefin 2022

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu (fy mod i/ein bod ni) yn bwriadu cynnal parti stryd yn ein stryd i ddathlu'r Jiwbilî Platinwm ar XX Mehefin 2022. Byddaf i/Byddwn ni yn gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel y gellir awdurdodi bod ein ffordd yn cael ei chau i draffig rhwng 10:00am a 9:00pm ar y diwrnod.

Fe'n hysbysir gan y Cyngor bod yn rhaid cynnal mynediad i gerddwyr a chaniatáu mynediad bob amser i gerbydau'r Gwasanaethau Brys wrth gau ffyrdd fel hyn. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid darparu mynediad i breswylwyr i fynd â'u cerbydau i'w heiddo ac oddi yno ynghyd ag unrhyw ofynion mynediad penodol eraill a all fod yn angenrheidiol ar y diwrnod. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i osod arwyddion cau ffyrdd a chonau i gau'r ffordd(ffyrdd), a rhoi gwybod i fodurwyr fod y ffordd ar gau ar gyfer ein parti stryd.

Nawr ein bod wedi'ch hysbysu chi o'r trefniadau arfaethedig, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n ymuno â ni yn y parti, a gynhelir yn (nodwch drefniadau'r parti). Gyda'ch cefnogaeth chi, rydyn ni'n gobeithio y bydd y parti stryd yn ffordd wych o ddathlu'r Jiwbilî Platinwm.

Fodd bynnag, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, pryderon neu wrthwynebiadau am y trefniadau hyn, cysylltwch â mi ar (nodwch y rhif ffôn).

Gyda chofion caredig,

Trefnydd y Digwyddiad/Cymydog

Rhowch Enw Yma

AMODAU CANIATÂD A GWEITHDREFN CYFFREDINOL

1. Rhaid i gerddwyr gael mynediad i bob eiddo ar y stryd bob amser.
2. Rhaid cynnal mynediad **uniongyrchol** i holl gerbydau'r gwasanaethau brys bob amser. Rhaid i unrhyw rwystr a osodir ar draws y stryd gael ei adeiladu fel bod modd ei symud ar unwaith.
3. Rhaid i unrhyw addurniadau neu faneri ar draws y stryd gael eu hongian yn y fath fodd fel na fydd yn achosi unrhyw rwystr i gerbyd gwasanaeth brys a allai fod angen mynediad.
4. Ni chaniateir ichi hongian unrhyw faneri o oleuadau stryd. Dylai fod yn hawdd datod addurniadau ger goleuadau stryd.
5. Ni chaniateir defnyddio polion nac offer i gynnal na chario ceblau trydan uwchben er budd diogelwch y cyhoedd. Ni ddylid taro polion i'r llwybrau troed na'r ffordd gerbydau. Ni chaniateir defnyddio unrhyw geblau trydan ar neu dros y briffordd.
6. Ni chaniateir unrhyw danau na barbeciw o fewn terfynau'r priffyrdd, sy'n cynnwys yr holl ffyrdd cerbydau, llwybrau troed, ymylon ffyrdd, lleiniau canol a chylchfannau.

7. Rhaid symud yr holl fyrddau, trestlau, cadeiriau, rhwystrau, ac ati, o'r briffordd yn syth ar ôl y digwyddiad a rhaid clirio'r holl sbwriel a malurion o'r ardal.
8. Bydd y Trefnydd yn gwerthfawrogi bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i drigolion ac y telir sylw i ddiogelwch a chysur yr henoed, plant methodig a phlant ifanc iawn. Rhaid cadw lefelau sŵn ac aflonyddwch mor isel â phosibl.
9. Bydd copi o'r "HYSBYSIAD" i gau'r ffordd dros dro yn cael ei anfon atoch maes o law a rhaid ei arddangos mewn man amlwg ar naill ben y rhan o'r ffordd sydd i'w chau a rhaid ei gadw yno tra bydd y ffordd ar gau.
10. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw anafiadau (yn cynnwys marwolaeth), colled neu ddifrod i unrhyw eiddo a all ddeillio'n uniongyrchol o'r weithred, diffygdlu neu esgeulustod o eich hun mewn cysylltiad â'r digwyddiad a phob hawliad, gorchymyn, achos, iawndal, costau, taliadau a threuliau o gwbl mewn parch neu perthynas â hynny.
11. Bydd y Trefnydd yn darparu tystiolaeth fod pawb yr effeithir arnynt gan y cau yn cytuno eu bod yn cefnogi'r digwyddiad ac yn fodlon ei fod yn mynd rhagddo.

Ydych chi wedi amgáu:

Eich ffurflen gais wedi'i chwblhau?